

Manyleb cymhwyster

NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth

Rhif: 601/3391/0

Cynnwys

Adran 1

Trosolwg o'r cymhwyster

Tudalen 4

Adran 2

Asesu a chymedroli

Tudalen 13

Adran 3

Strwythur a chynnwys

Tudalen 17

Adran 4

Cysylltiadau â Safonau Sgiliau Cenedlaethol

Tudalen 59

Adran 5

Cysylltiadau â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

Tudalen 61

Adran 6

Esboniad o'r termau

Tudalen 65

Adran 7

Gwybodaeth Gyffredinol

Tudalen 68

Crynodeb o'r newidiadau

Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r newidiadau i fanyleb y cymhwyster hwn ers y fersiwn ddiwethaf (Rhifyn 3 Medi 2018). Trowch at dudalen y cymhwyster ar ein gwefan ar gyfer y fersiwn ddiweddaraf.

Fersiwn	Dyddiad cyhoeddi	Crynodeb o'r newidiadau
V3.1	Ionawr 2020	Ychwanegu gwybodaeth am ddiogelu a llesiant dysgwyr at Adran 1 (tudalen 12).
V3.2	Mehefin 2022	<p>Ychwanegu gwybodaeth bellach at yr adran sut y caiff y cymhwyster hwn ei asesu i gadarnhau'r canlynol – oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg.</p> <p>Ychwanegu gwybodaeth at yr adran canllawiau mynediad i roi gwybod bod cofrestriad yn ôl disgrisiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid gwneud hynny ar y Porth.</p>

Adran 1

Trosolwg o'r cymhwyster

Trosolwg o'r cymhwyster

Cyflwyniad

Rydym am wneud eich profiad o weithio gyda NCFE mor ddymunol a hawdd â phosibl. Mae'r fanyleb cymhwyster hon yn cynnwys popeth sydd angen i chi ei wybod am y cymhwyster hwn a dylai pawb sy'n ymwneud â chynllunio, cyflwyno ac asesu Tystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth ei defnyddio.

Mae'r holl wybodaeth a gynhwysir yn y fanyleb hon yn gywir ar adeg ei chyhoeddi.

Er mwyn sicrhau eich bod yn defnyddio'r fersiwn ddiweddaraf o'r fanyleb cymhwyster hon, gwiriwch y dyddiad cyhoeddi ar frig y dudalen yn erbyn y fanyleb cymhwyster ar wefan NCFE.

Os byddwch yn hysbysebu'r cymhwyster hwn gan ddefnyddio enw gwahanol neu fyrrach, rhaid i chi sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol y bydd eu tystysgrif derfynol yn nodi teitl llawn y cymhwyster rheoledig sef NCFE Tystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth.

Gwybodaeth am y cymhwyster hwn

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i reoleiddio. Rhif rheoledig y cymhwyster hwn yw 601/3391/0.

Gall y cymhwyster hwn fod yn gymwys i gael cyllid. Am arweiniad pellach ar gyllid, cysylltwch â'ch darparwr cyllid lleol.

Mae'r cymhwyster hwn yn rhan o Astudiaethau Sylfaen. Ewch i wefan NCFE am ragor o wybodaeth.

Pethau y mae angen i chi eu gwybod

- Rhif y cymhwyster (QN): 601/3391/0
 - Cyfeirnod: 60133910
 - Cyfanswm Amser y Cymhwyster (TQT): 160
 - Oriau Dysgu dan Arweiniad (ODDA): 120
 - Gwerth credyd: 16
 - Lefel: 2
 - Gofynion asesu: portffolio tystiolaeth wedi'i asesu'n fewnol a'i gymedroli'n allanol
-

Nodau ac amcanion y cymhwyster hwn

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i anelu at yr unigolion hynny sy'n dymuno datblygu dealltwriaeth o brosesau ffotograffig a'r diwydiant ffoto-ddelweddu. Bydd y cymhwyster hefyd yn galluogi dysgwyr i ddeall sut i drin delweddau ac archwilio un o'r meysydd ffotograffiaeth canlynol yn fanwl:

- ystafell dywyll
- stiwdio
- lleoliad
- masnachol
- dogfennol
- prosesau arbrofol ac amgen.

Amcanion y cymhwyster hwn yw cefnogi dysgwyr i symud ymlaen i gyflogaeth yn y diwydiant neu i gymwysterau pellach ar Lefel 3 mewn pynciau creadigol gan gynnwys ffotograffiaeth, celf a dylunio, crefft, animeiddio a chynhyrchu delweddau symudol.

Canllawiau mynediad

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i ddylunio ar gyfer unigolion sy'n dymuno datblygu dealltwriaeth o brosesau ffotograffig a'r diwydiant ffoto-ddelweddu.

Nid oes unrhyw ofynion dysgu blaenorol penodol argymelledig ar gyfer y cymhwyster hwn. Fodd bynnag, gallai fod o gymorth i ddysgwyr os ydynt eisoes wedi ennill cymhwyster ffotograffiaeth Lefel 1.

Mae cofrestru yn ôl disgrisiwn y ganolfan, yn unol â deddfwriaeth cydraddoldeb a dylid ei wneud ar y Porth. Mae'r cymhwyster hwn yn addas ar gyfer dysgwyr cyn-16 oed a hŷn.

Mae canolfannau yn gyfrifol am sicrhau bod y cymhwyster hwn yn briodol ar gyfer oedran a gallu dysgwyr. Mae angen iddynt sicrhau bod dysgwyr yn gallu cyflawni gofynion y meini prawf asesu a chydymffurfio ag agweddau llythrennedd, rhifedd ac iechyd a diogelwch perthnasol y cymhwyster hwn. Ni ddylai dysgwyr sydd wedi cofrestru ar y cymhwyster hwn ddilyn cymhwyster arall ar yr un lefel gyda'r un teitl neu deitl tebyg, oherwydd gall dyblygu'r dysgu effeithio ar gymhwysedd cyllid.

Cyflawni'r cymhwyster hwn

Er mwyn ennill y Dystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth, rhaid i ddysgwyr gyflawni o leiaf **16** credyd: **8** o'r unedau craidd ac o leiaf **8** o'r unedau dewisol.

Mae'r cymhwyster hwn yn cynnwys **3** uned graidd:

- Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (4 credyd)
- Uned 02 Datblygu ac addasu syniadau ffotograffig (4 credyd)
- Uned 03 Cyflwyniad i'r diwydiant ffoto-ddelweddu (4 credyd)

a **7** uned ddewisol:

- Uned 04 Prosesu ac argraffu yn yr ystafell dywyll (8 credyd)
- Uned 05 Ffotograffiaeth stiwdio (8 credyd)
- Uned 06 Ffotograffiaeth ar leoliad (8 credyd)
- Uned 07 Ffotograffiaeth fasnachol (8 credyd)
- Uned 08 Ffotograffiaeth ddogfennol (8 credyd)
- Uned 09 Ffotograffiaeth proses arbrofol ac amgen (8 credyd)
- Uned 10 Cyflwyno portffolio o ddelweddau ffotograffig (8 credyd)

Darperir y canlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu ar gyfer pob uned yn Adran 3 (tudalen 16).

Er mwyn cyflawni'r Dystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth, rhaid i ddysgwyr ddangos yn llwyddiannus eu bod wedi cyflawni holl ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu'r unedau fel y manylir arnynt ym manyleb y cymhwyster hwn. Nid yw graddau'n cael eu dyfarnu.

Os na fydd dysgwyr yn llwyddiannus, gallant ailgyflwyno gwaith o fewn y cyfnod cofrestru; fodd bynnag, efallai bydd tâl am hyn. Gellir gofyn am Dystysgrif Credyd ar gyfer dysgwyr nad ydynt yn ennill eu cymhwyster llawn ond sydd wedi cyflawni o leiaf un uned gyfan.

Cyfleoedd ar gyfer dilyniant

Gallai dysgwyr sy'n cyflawni'r cymhwyster hwn fynd ymlaen i'r canlynol:

- Tystysgrif Lefel 3 mewn Ffotograffiaeth
- Diploma Lefel 3 mewn Ffotograffiaeth
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Celf a Dylunio
- Tystysgrif Lefel 3 mewn Crefft Greadigol

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i'r rhai sy'n astudio cymwysterau yn y sector Celfyddydau, y Cyfryngau a Chyhoeddi.

Gall dysgwyr symud ymlaen o Dystysgrif Estynedig i Ddiploma, ond rhaid i ganolfannau ystyried yn ofalus pa gymhwyster y maent am gofrestru'r dysgwr ar ei gyfer, gan y bydd y ffi gofrestru yn cael ei chodi ar gyfer y ddau gymhwyster.

Unedau gwaharddedig, unedau cywerth ac esemptiadau

Gall y cymhwyster gynnwys unedau gwaharddedig, unedau cywerth neu esemptiadau. Cyfeirir at rhain yn y crynodebau ar gyfer pob uned.

Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol

Gall canolfannau gydnabod profiad o ddysgu blaenorol fel a fynnant os ydyn nhw'n fodlon bod y dystiolaeth sy'n cael ei chynnig yn cydymffurfio â gofynion y cymhwyster. Os yw'r fath gydnabyddiaeth i'w defnyddio ar raddfa eang (ar gyfer uned gyfan neu fwy), rhaid ceisio cyngor oddi wrth Ymgynghorydd RPL cymwys.

Trosglwyddo credydau

Os yw dysgwr wedi cyflawni uned a derbyn credydau, bydd NCFE yn cydnabod y profiad hwnnw ac yn caniatáu i'r credyd gael ei drosglwyddo i'r cymhwyster newydd, cyn belled â bod gan yr unedau yr un cyfeirnod Ofqual.

Dyddiadau cymwysterau

Mae gan gymwysterau rheoledig ddyddiadau gorffen gweithredol a dyddiadau gorffen ardystio.

Rydym yn adolygu cymwysterau'n rheolaidd, gan weithio gyda chynrychiolwyr y sector, arbenigwyr galwedigaethol a rhanddeiliaid i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i ddiwallu anghenion y sector ac i adlewyrchu datblygiadau diweddar.

Os penderfynir tynnu cymhwyster yn ôl, byddwn yn pennu dyddiad gorffen gweithredol ac yn rhoi rhybudd rhesymol i'n canolfannau. Byddwn yn cymryd pob cam rhesymol i ddiogelu buddiannau dysgwyr.

Dim ond ar Gofrestr Cymwysterau Rheoledig Ofqual <https://register.ofqual.gov.uk> ac ar ein gwefan y bydd dyddiad gorffen gweithredol yn cael ei ddangos os penderfynwyd tynnu cymhwyster yn ôl. Ar ôl y dyddiad hwn ni allwn dderbyn cofrestriadau dysgwyr mwyach. Fodd bynnag, caniateir ardystiad tan y dyddiad gorffen ardystio fel bod gan ddysgwyr amser i gwblhau unrhyw raglenni astudio. Bydd y dyddiad gorffen ardystio ond yn dangos ar Gofrestr Ofqual unwaith y bydd dyddiad gorffen gweithredol wedi'i bennu. Ar ôl y dyddiad hwn, ni allwn brosesu hawliadau ardystio mwyach.

Gofynion staffio

Mae'n rhaid i ganolfannau sy'n cyflwyno unrhyw rai o gymwysterau NCFE:

- fod â nifer digonol o Aseswyr cymwys/profiadol i asesu gwaith y dysgwyr y bwriedir eu cofrestru
- bod â nifer digonol o Swyddogion Sicrhau Ansawdd Mewnol cymwys/profiadol i sicrhau ansawdd mewnol nifer yr Aseswyr a dysgwyr disgwylidig
- sicrhau bod y staff sy'n ymwneud ag asesu a sicrhau ansawdd mewnol yn derbyn hyfforddiant addas ac yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus ystyrlon a pherthnasol
- gweithredu systemau a phrosesau sicrhau ansawdd mewnol effeithiol er mwyn sicrhau bod pob penderfyniad asesu yn ddibynadwy, yn gywir, yn addas, yn ddigonol a chyfoes. Dylai hyn gynnwys mesurau i sicrhau cysondeb wrth asesu
- sicrhau bod gan yr holl staff sy'n ymwneud â'r broses o sicrhau ansawdd ddigon o amser i gyflawni eu dyletswyddau yn effeithiol.

Aseswyr a Sicrhau Ansawdd Mewnol

Rhaid i staff sy'n ymwneud ag Asesu a Sicrhau Ansawdd Mewnol y cymhwyster hwn allu dangos bod ganddynt (neu eu bod yn gweithio tuag at) y wybodaeth alwedigaethol berthnasol a/neu gymhwysedd galwedigaethol, ar yr un lefel â'r unedau y maent yn eu hasesu neu'n sicrhau eu hansawdd mewnol, neu'n uwch. Gellir ennill hyn trwy brofiad a/neu gymwysterau.

Gofynion o ran adnoddau

Er mwyn cynorthwyo i gyflwyno'r cymhwyster hwn, dylai canolfannau ddarparu mynediad i ddysgwyr at offer priodol ar gyfer ffotograffiaeth ddigidol/ffilm i fodloni gofynion y fanyleb hon.

Cymorth i ddysgwyr

Log Olrhain Tystiolaeth Dysgwr (LETL)

Gall y LETL helpu dysgwyr i gadw golwg ar eu gwaith. Gellir lawrlwytho'r ddogfen wag hon yn rhad ac am ddim o wefan NCFE. Nid oes rhaid i chi ddefnyddio'r LETL – gallwch ddyfeisio'ch dogfen olrhain tystiolaeth eich hun yn lle hynny.

Cymorth i ganolfannau

Mae nifer o ddogfennau cymorth ar gael y gallent fod yn ddefnyddiol i chi wrth gyflwyno'r cwrs. Mae'r rhain ar gael i'w lawrlwytho ar wefan NCFE neu gellir gofyn i'r tîm cymorth i gwsmeriaid amdanynt ar 0191 239 8000 neu e-bostio customersupport@ncfe.org.uk

Bydd ein tîm cymorth i gwsmeriaid yn eich cefnogi gyda chymeradwyo, cofrestru, sicrhau ansawdd allanol, asesiad allanol, canlyniadau ac ardystio.

Pecynnau Cymorth Cymwysterau

Mae NCFE yn cynnig Pecyn Cymorth Cymwysterau (QSP) yn rhad ac am ddim ar gyfer y cymhwyster hwn.

Mae QSP yn adnodd ar gael yn rhad ac am ddim y gall Tiwtoriaid ei ddefnyddio wrth gynllunio a chyflwyno cymwysterau NCFE. O fewn QSP, bydd Tiwtoriaid yn dod o hyd i Gynllun Gwaith, cyflwyniadau PowerPoint ac ystod eang o dasgau a thafleenni gwaith i helpu dysgwyr i atgyfnerthu eu gwybodaeth.

Ni fwriedir i QSP ymdrin â'r canlyniadau dysgu yn llawn, ond mae'r cynnwys wedi'i fapio i'r cymhwyster i sicrhau ei fod yn berthnasol ac yn ddefnyddiol.

Gellir lawrlwytho'r QSP ar gyfer y cymhwyster hwn o wefan NCFE.

Mae NCFE hefyd wedi datblygu Pecyn Cyflawni Uwch ar gyfer y cymhwyster hwn, sy'n darparu deunyddiau cymorth ychwanegol i Diwtoriaid i'w cynorthwyo i gyflwyno'r cymhwyster hwn. Mae'r adnodd hwn y telir amdano ar gael i'w brynu trwy wefan NCFE.

Canllaw Cymorth i Gwsmeriaid

Mae hwn yn esbonio popeth sydd angen i chi ei wybod, o sut i wneud cais i ddod yn ganolfan a gymeradwyir gan NCFE i gofrestru eich dysgwyr a hawlio eu tystysgrifau, a phopeth arall. Rhaid i ganolfannau geisio cymeradwyaeth i gynnig cymhwyster. Dim ond dysgwyr o ganolfannau cymeradwy all gael eu hardystio.

Polisi Addasiadau Rhesymol ac Ystyriaethau Arbennig

Mae'r polisi hwn wedi'i anelu at gwsmeriaid – gan gynnwys dysgwyr – sy'n defnyddio ein cynhyrchion a'n gwasanaethau ac sy'n cyflwyno ceisiadau am addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig. Gellir dod o hyd i'r polisi ar wefan NCFE.

Mapiau pwnc

Mae ein cyfres o fapiau pwnc yn dangos y cymwysterau sydd ar gael ym mhob sector arbenigol a sut maent yn cysylltu â'i gilydd. Maent yn dangos sut y gallwch chi gynllunio llwybrau ar gyfer eich dysgwyr ar wahanol lefelau o lefel mynediad hyd at addysg uwch neu'r gweithlu, gyda chymwysterau i gefnogi hynny ar hyd y ffordd.

Ffioedd a Phrisiau

Mae'r Canllaw Ffioedd a Phrisiau cyfredol ar gael ar wefan NCFE.

Hyfforddiant a chymorth

Gallwn ddarparu sesiynau hyfforddi ar gyfer Aseswyr a Safonwyr Mewnol. Mae hyfforddiant pwnc-benodol pwrpasol hefyd ar gael. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â'n tîm Sicrhau Ansawdd ar 0191 239 8000

Adnoddau dysgu

Rhaid i'r adnoddau a'r deunyddiau a ddefnyddir wrth gyflwyno'r cymhwyster hwn fod yn briodol i oedran a dylid rhoi ystyriaeth briodol i les a diogelu dysgwyr yn unol â pholisi diogelu eich sefydliad wrth ddatblygu neu ddewis deunyddiau cyflenwi.

Rydym yn cynnig ystod eang o adnoddau a deunyddiau dysgu i gefnogi cyflwyno ein cymwysterau. Edrychwch ar y dudalen cymwysterau ar wefan NCFE am ragor o wybodaeth ac i weld beth sydd ar gael ar gyfer y cymhwyster hwn.

Cysylltiadau â Safonau Sgiliau Cenedlaethol

Ar gyfer y cymhwyster hwn, rydym wedi nodi ble y gellir dod o hyd i gyfleoedd dysgu ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Gweithredol.

Gellir defnyddio'r cymhwyster hwn i ddatblygu:

- sgiliau Saesneg
- Sgiliau Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Mae Adran 4 (tudalen 59) yn dangos sut mae unedau'r cymhwyster hwn yn ymwneud â'r sgiliau uchod.

Os yw dysgwr yn dymuno ennill cymhwyster Sgiliau Gweithredol, rhaid iddo lwyddo yn yr asesiad Sgiliau Gweithredol perthnasol.

Mae'r cymhwyster hwn hefyd wedi'i fapio i'r fframwaith Sgiliau Personol, Dysgu a Meddwl (PLTS). Mae'r fframwaith yn disgrifio'r rhinweddau a'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer llwyddiant mewn dysgu a bywyd. Datblygwyd y fframwaith PLTS dros nifer o flynyddoedd mewn ymgynghoriad â chyflogwyr, rhieni, ysgolion, myfyrwyr a'r cyhoedd ehangach. Am fapio mwy manwl, gweler Adran 4 (tudalen 59).

Adran 2

Aseu a chymedroli

Asesu a chymedroli

Sut caiff y cymhwyster ei asesu

Oni nodir yn wahanol yn y fanyleb hon, rhaid i bob dysgwr sy'n cymryd y cymhwyster hwn gael ei asesu yn Saesneg a rhaid i'r holl dystiolaeth asesu a gyflwynir ar gyfer sicrhau ansawdd allanol fod yn Saesneg.

Asesu yw'r broses o fesur sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth ymgeisydd yn erbyn y safonau a osodir mewn cymhwyster.

Caiff y Dystysgrif Lefel 2 mewn Ffotograffiaeth ei hasesu'n fewnol.

Asesiad mewnol

Rhaid i bob ymgeisydd greu portffolio o dystiolaeth sy'n dangos bod yr holl ganlyniadau dysgu sy'n gysylltiedig â phob uned wedi'u cyflawni. Ar ôl cwblhau pob uned, rhaid i ymgeiswyr ddatgan mai eu gwaith nhw eu hunain yw'r gwaith a gynhrychir. Mae'n rhaid i'r aseswr gydlfnodi hyn. Darperir enghreifftiau o dystiolaeth addas ar gyfer y portffolio ar gyfer pob uned yn Adran 3 (tudalen 16).

Gallai'r prif ddarnau o dystiolaeth ar gyfer y portffolio gynnwys (heb fod mewn trefn benodol):

- Arsylwi gan aseswr – rhestr gwirio arsylwadol wedi'u cwblhau a chynlluniau gweithredu cysylltiedig
- tystiolaeth tyst
- tystiolaeth o waith yr ymgeisydd
- taflenni gwaith
- aseiniadau/prosiectau/adroddiadau
- cofnod o drafodaeth broffesiynol
- cofnod o gwestiynu llafar ac ysgrifenedig
- adroddiadau ymgeiswyr a chyfoedion
- Cydnabyddiaeth o Ddysgu Blaenorol (RPL)

Darperir canllawiau asesu ar gyfer pob uned. Gall aseswyr ddefnyddio dulliau asesu eraill cyn belled â'u bod yn ddilys ac yn ddibynadwy a'u bod yn cynnal uniondeb yr asesiad a'r safonau sy'n ofynnol gan y cymhwyster hwn. Gellid tynnu dulliau asesu derbynol o'r rhestr uchod.

Rhaid i aseswyr fod yn fodlon bod ymgeiswyr wedi cyflawni'r holl ganlyniadau dysgu a'r meini prawf asesu sy'n gysylltiedig â'r uned sy'n cael ei hasesu, cyn penderfynu a yw ymgeiswyr wedi bod yn llwyddiannus. Mae aseswyr hefyd yn gyfrifol am gefnogi ymgeiswyr drwy'r broses asesu.

I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r Tîm Sicrhau Ansawdd ar 0191 239 8000.

Cymedroli

Cymedroli yw'r broses lle rydym yn cadarnhau bod penderfyniadau asesu mewn canolfannau:

- wedi'u gwneud gan Aseswyr cymwys
- yn gynnyrch ymarfer asesu cadarn a theg
- wedi'u cofnodi yn gywir ac yn briodol.

Gwnawn hyn drwy:

- gymedroli mewnol – y byddwch chi'n ei wneud
- cymedroli allanol – y byddwn ni'n ei wneud drwy ein Cymedrolwyr Allanol a fydd, drwy eich cefnogi, yn sicrhau bod asesiadau'n bodloni safonau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a bod eich systemau sicrhau ansawdd yn parhau i fodloni ein meini prawf cymeradwyo canolfannau.

Mae'r Cymedrolwr Mewnol yn darparu'r cyswllt hanfodol rhwng yr Aseswyr a'r Cymedrolwr Allanol ac mae'n gweithredu fel swyddog sicrhau ansawdd y ganolfan.

Os hoffech wybod mwy am gyfrifoldebau Aseswyr a Chymedrolwyr Mewnol ac Allanol, cyfeiriwch at ein Canllaw Cymorth i Gwsmeriaid.

Adran 3

Strwythur a chynnwys

Strwythur a chynnwys

Mae'r adran hon yn rhoi manylion am strwythur a chynnwys y cymhwyster hwn.

Mae crynodeb o'r uned yn rhoi trosolwg o bob uned gan gynnwys:

- teitl yr uned
- trosolwg o'r uned
- oriau dysgu dan arweiniad
- gwerth credyd
- lefel
- nodi a yw uned yn orfodol neu'n ddewisol.

Yn dilyn crynodeb o'r uned, ceir gwybodaeth fanwl ar gyfer pob uned sy'n cynnwys:

- teitl a rhif yr uned
- canlyniadau Dysgu (bydd y dysgwr yn) a'r meini prawf asesu (mae'r dysgwr yn gallu)
- canllawiau ar gyfer datblygu asesu (esboniad o dermau technegol a dyfnder ac ehangder darpariaeth yr uned)
- canllawiau asesu (mathau o dystiolaeth ar gyfer asesu mewnol)

Nodir rhif uned wedi'i reoleiddio mewn cromfachau ar gyfer pob uned (ee M/100/7116). Fodd bynnag, er mwyn ei gwneud yn haws croesgyfeirio asesu a sicrhau ansawdd, rydym wedi defnyddio system rifo ddilyniannol yn y ddogfen hon ar gyfer pob uned.

I gael rhagor o wybodaeth neu arweiniad am y cymhwyster hwn, cysylltwch â'n tîm Ymchwil a Datblygu Cynnyrch ar 0191 239 8000.

Crynodebau uned

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069)

Mae'r uned hon yn ymdrin â sut i ddefnyddio camera digidol neu ffilm mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd gwahanol. Bydd dysgwyr yn gallu adnabod y dewislenni a'r gosodiadau a geir ar gamera, a sut i'w defnyddio'n gywir, i osod swyddogaethau camera perthnasol fel cyflymder caead, yr agorfa, cydbwysedd gwyn a ffocws.

Gan ddefnyddio ystod o offer, bydd dysgwyr yn cynhyrchu cyfres o ffotograffau sy'n archwilio gwahanol dechnegau ffotograffig. Bydd y rhain yn cynnwys yr effeithiau gweledol a gaiff eu creu wrth ddefnyddio gwahanol lensys a chyflymder caead. Ar ôl cipio delweddau, byddant yn defnyddio meddalwedd prosesu delweddau i gynhyrchu a gwerthuso cyfres o ddelweddau arbrofol. Byddant hefyd yn dysgu hanfodion arferion gweithio'n ddiogel.

Bydd y wybodaeth a'r ddealltwriaeth hon yn ffurfio'r ymarfer ffotograffig technegol a gweledol sylfaenol trwy gydol y cymhwyster.

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Gwerth credyd: 4

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **uned graidd**

Uned 02 Datblygu ac addasu syniadau ffotograffig (T/506/0070)

Er mwyn datblygu eu syniadau ffotograffig eu hunain, bydd dysgwyr yn ymchwilio i waith ffotograffwyr eraill. Byddant yn gallu disgrifio'r dulliau a'r iaith weledol a ddefnyddir gan y ffotograffwyr a ddewiswyd, a'u defnyddio fel sylfaen ar gyfer eu prosiectau ffotograffig eu hunain.

Bydd yr astudiaeth gychwynnol hon yn cael ei chyflwyno i'w hadolygu a'i haddasu os bydd angen. Bydd dysgwyr yn nodi adnoddau sydd eu hangen ac yn gwerthuso unrhyw ofynion iechyd a diogelwch a allai godi. Byddant yn cynhyrchu disgrifiad gweledol sy'n adlewyrchu cynnydd y gwaith ac yn cynhyrchu cyfres o ddelweddau archwiliadol. Yn ystod y prosiect ac ar ôl ei gwblhau, bydd dysgwyr yn asesu eu gwaith ac yn gwneud unrhyw newidiadau mewn ymateb i adborth.

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Gwerth credyd: 4

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **uned graidd**

Crynodebau uned (parhad)**Uned 03 Cyflwyniad i'r diwydiant ffoto-ddelweddu (A/506/0071)**

Bydd yr uned hon yn rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i ddysgwyr o'r gwahanol rolau a chyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y diwydiant ffoto-ddelweddu. Byddant yn gallu disgrifio'r farchnad ar gyfer delweddau ffotograffig ac yn meddu ar ddealltwriaeth sylfaenol o ddeddfwriaeth gysylltiedig sy'n berthnasol i waith ffotograffig. Bydd hyn yn cynnwys hawlfraint, eiddo deallusol a hawliau ffotograffwyr.

Oriau dysgu dan arweiniad: 30

Gwerth credyd: 4

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **uned graidd**

Uned 04 Prosesu ac argraffu yn yr ystafell dywyll (F/506/0072)

I ddysgwyr sy'n defnyddio ffilm, bydd yr uned hon yn rhoi'r sgiliau angenrheidiol i brosesu ffilm a phrintiau'n gywir. Bydd dysgwyr yn deall cemeg sylfaenol prosesu ystafell dywyll gwlyb a byddant yn gallu disgrifio'r gweithdrefnau i'w dilyn er mwyn cynhyrchu negatiffau a phrintiau o ansawdd uchel mewn amgylchedd gwaith diogel. Fel rhan o'r dull prosesu, bydd dysgwyr yn gallu disgrifio'r problemau a allai ddigwydd a deall pwysigrwydd a defnydd amrywiadau amser a thymheredd yn ystod y cam datblygu. Yn y cam argraffu byddant yn gallu disgrifio a defnyddio gwahanol fathau o brosesau argraffu a gwerthuso ansawdd y printiau terfynol.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Crynodebau uned (parhad)**Uned 05 Ffotograffiaeth stiwdio (J/506/0073)**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn ymchwilio i waith ffotograffwyr stiwdio dylanwadol, hanesyddol a chyfoes. Bydd dysgwyr yn gallu amlinellu sut y gellid defnyddio'r dulliau a'r iaith weledol a ddefnyddir gan y ffotograffwyr a ddewiswyd i ddylanwadu ar eu prosiectau ffotograffig eu hunain. Byddant yn gallu paratoi, sefydlu a rheoli sesiwn tynnu lluniau yn y stiwdio. Bydd hyn yn cynnwys gwerthfawrogiad o wahanol fathau o oleuadau stiwdio a sut y gellir defnyddio'r rhain i addasu'r canlyniadau gweledol. Byddant yn cynhyrchu cyfres o ddelweddau a dynnwyd yn y stiwdio ac yn eu cyflwyno i'w gwerthuso a'u hadolygu.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Uned 06 Ffotograffiaeth ar leoliad (L/506/0074)

Bydd dysgwyr yn gallu disgrifio gwahanol gymwysiadau ffotograffiaeth ar leoliad. Mae hyn yn cynnwys unrhyw waith ffotograffig a wneir i ffwrdd o stiwdio a gallai gynnwys tirwedd, ffasiwn neu ffotonewyddiaduraeth. Bydd dysgwyr yn deall yr angen i reoli iechyd a diogelwch, ac yn deall materion cyfreithiol a moesegol posibl y gellir dod ar eu traws. Byddant yn cynllunio, trefnu a chynnal sesiwn tynnu lluniau ar leoliad. Bydd y delweddau a gynhyrchwyd yn ystod y sesiwn hon yn cael eu cyflwyno i'w gwerthuso a'u hadolygu.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Crynodebau uned (parhad)

Uned 07 Ffotograffiaeth fasnachol (R/506/0075)

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn ymchwilio i esblygiad hanesyddol a dylanwadau ffotograffiaeth fasnachol ac yn gallu eu cymhwyso i arfer cyfredol. Bydd dysgwyr yn deall y gofyniad i ddefnyddio syniadau a themâu ffotograffig i wireddu briff cleient. Byddant yn paratoi ac yn rheoli sesiwn tynnu lluniau masnachol ac yn gosod yr offer angenrheidiol i weithredu mewn amgylchedd gwaith diogel. Bydd yr ymgeiswyr yn cynhyrchu cyfres o ganlyniadau ffotograffig y byddant yn eu cyflwyno i'r cleient i'w hadolygu a rhoi adborth. Yn dilyn adborth cleientiaid, byddant yn gwerthuso'r delweddau ac yn nodi cryfderau a gwendidau yn y cynnyrch terfynol.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Uned 08 Ffotograffiaeth ddogfennol (Y/506/0076)

Bydd dysgwyr yn ymchwilio i waith ffotograffwyr dogfennol hanesyddol a chyfoes ac yn nodi themâu a dylanwadau y gellid eu cymhwyso i'w gwaith eu hunain. Bydd y dysgwyr yn dewis digwyddiadau sy'n addas ar gyfer sesiwn tynnu lluniau dogfennol a byddant yn cyflwyno syniadau i'w hadolygu. Yna byddant yn paratoi sesiwn tynnu lluniau dogfennol wedi'i rheoli o fewn amgylchedd gwaith diogel. Yn dilyn y sesiwn, byddant yn cyflwyno panel o ffotograffau sy'n adlewyrchu eu hagwedd unigol eu hunain at y pwnc. Bydd y canlyniadau dogfennol a gynhyrchir yn cael eu hadolygu, eu gwerthuso a'u golygu er mwyn cynhyrchu panel o ddelweddau sy'n darlunio'r digwyddiad neu'r stori a ddewiswyd yn gywir.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Crynodebau uned (parhad)**Uned 09 Ffotograffiaeth proses arbrol ac amgen
(D/506/0077)**

Yn yr uned hon, bydd dysgwyr yn ymchwilio i hanes ac esblygiad ffotograffiaeth proses amgen ac yn disgrifio sut y gellir cymhwyso hyn at eu gwaith eu hunain. Byddant yn deall cryfderau, cyfyngiadau a goblygiadau iechyd a diogelwch prosesau ffotograffig amgen. Byddant yn gosod unrhyw offer gofynnol yn ddiogel ac yn cynhyrchu detholiad o ddelweddau gan ddefnyddio gwahanol dechnegau ffotograffiaeth proses amgen. Byddant yn gwerthuso'r canlyniadau ac yn cyflwyno'r rhain i'w hadolygu a derbyn adborth.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

**Uned 10 Cyflwyno portffolio o ddelweddau ffotograffig
(H/506/0078)**

Yn yr uned hon bydd dysgwyr yn ennill y sgiliau angenrheidiol i baratoi a chyflwyno delweddau terfynol er mwyn dangos y delweddau hyn yn y ffordd orau. Byddant yn gallu mowntio printiau ffotograffig yn gywir ac yn ddiogel a pharatoi ffeiliau digidol ar gyfer cyflwyniad gweledol. Bydd dysgwyr yn gallu cymharu manteision ac anfanteision dulliau cyflwyno gwahanol a chyflwyno panel o ddelweddau terfynol i'w hadolygu a derbyn adborth.

Oriau dysgu dan arweiniad: 60

Gwerth credyd: 8

Lefel: 2

Mae'r uned hon yn **ddewisol**

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069)

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Gwybod sut i ddefnyddio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Defnyddio camera digidol neu ffilm gan gynnwys swyddogaethau'r rheolaethau, dewislenni, gosodiadau ac addasiadau i weddu i wahanol sefyllfaoedd a gofynion
 - 1.2 Defnyddio amrywiaeth o offer, deunyddiau, adnoddau a thechnegau
 - 1.3 Cynhyrchu cyfres o saethiadau a delweddau prawf ar gyfer maes ffotograffiaeth a ddewiswyd
 - 1.4 Dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch
-

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069) (parhad)**Ystod**

- 1.1 **Dewislen:** Mae gan gamerau digidol lawer o swyddogaethau y gellir eu cyrchu trwy ddewislenni ar y sgrin y gellir newid gosodiadau ohonynt
 - 1.1 **Gosodiadau:** Agorfa, cyflymder caead, dyfnder maes ISO, cyflymder ffilm, cydbwysedd gwyn
 - 1.1 **Storio delweddau:** cardiau cof, cyfrifiadur, gyriant caled allanol
 - 1.1 **ISO:** sensitifrwydd effeithiol y synhwyrdd digidol
 - 1.2 **Cyfarpar:** lensys, hidlyddion, tripod, teclyn rhyddhau cebl, addasyddion macro
 - 1.3 **Maes Ffotograffiaeth:** digwyddiadau a symudiadau, adeiladau, agoslun, tirwedd, portread, natur, dogfennol, bywyd llonydd, stiwdio
 - 1.4 **Iechyd a diogelwch:** perygl, risg, cyfrifoldebau, Rheoliadau Sgrin Arddangos, Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith
-

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069) (parhad)**Canllawiau asesu**

Y dull cyflwyno gwaith terfynol a ffefrir yw printiau wedi'u mowntio o ansawdd uchel gyda maint print enwol heb fod yn llai na 20 x 15cm (8 x 6 modfedd). Ni ddylai'r ymgeiswyr gynhyrchu llai na 6 phrint i ddangos eu dewis bwnc. Efallai y bydd canolfannau am gyflwyno gwaith yn ddigidol. Dylai delweddau ar gyfer eu taflunio fod yn 1400 picseel x 1050 picseel (ochr hir) ac yn y gofod lliw sRGB. Dylai unrhyw daflunwyr a ddefnyddir gael eu graddnodi ar y cyd â'r cyfrifiadur i'w ddefnyddio. Dylai delweddau a gyflwynir yn ddigidol ar sgrin gyfrifiadur fod ar yr un maint ac ansawdd ar gyfer argraffu. Yr eglurdeb argraffu a argymhellir yw 300 dpi a dylai maint y ddelwedd fod yn 2400 picseel x 1800 picseel. Dylai'r monitor a ddefnyddir gael ei raddnodi'n gywir.

Dylai deunydd ysgrifenedig a gynhyrchir o ganlyniad i ymchwil, ymweliadau ag orielau ac ati fod tua 1000 o eiriau. Dylid nodi pob ffynhonnell yn ogystal â'r llyfryddiaeth a rhestri o unrhyw ymweliadau.

Mathau o dystiolaeth: llyfr/dyddiadur gwaith a nodiadau anodedig, sylwadau ysgrifenedig sy'n cyfiawnhau dewisiadau, sgrinluniau, cyfres o ddelweddau archwiliadol.

Meini prawf asesu: 1.1–1.4

Gwybodaeth ychwanegol: Dylai'r portffolio ddangos sut y datblygwyd sgiliau technegol ymarferol i ffurfio sylfaen sy'n sail i brosiectau ffotograffig dilynol.

Dylai'r ymgeisydd gynhyrchu llyfr/dyddiadur gwaith sy'n cynnwys dystiolaeth sy'n dangos sut mae pob canlyniad dysgu wedi'i fodloni. Ar gyfer yr uned hon, y nod yw dangos bod yr ymgeisydd yn hyderus ac yn gyfarwydd â'r offer sy'n cael ei ddefnyddio er mwyn gallu datblygu'r sgiliau gweledol a fydd eu hangen mewn unedau dilynol.

Dylai'r dystiolaeth weledol ddangos yn glir y gall yr ymgeisydd gynhyrchu delweddau sy'n dangos effeithiau cyflymder caead cyflym ac araf, dyfnder maes bach a mawr. Dylai delweddau digidol ddangos dealltwriaeth o'r effeithiau ar ansawdd delwedd gosodiadau ISO uchel.

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069) (parhad)**Canllawiau asesu (parhad)**

Dylai portffolios ymgeiswyr gynnwys yr holl waith archwilio ac arbrofol i ddangos tystiolaeth o'r broses. Dylid croesgyfeirio'r gwaith yn ofalus at unrhyw ganlyniadau dysgu perthnasol gan y gallai un darn o dystiolaeth fod yr un mor ddilys i ddangos bod yr ymgeisydd wedi ymdrin ag ystod o wahanol ganlyniadau dysgu.

Gellir dangos gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol trwy waith ymarferol a thrwy nodiadau ysgrifenedig neu ddatganiadau yn dilyn ymchwil. Rhaid cydnabod yn llawn yr holl ddeunydd ymchwil a gasglwyd o ffynonellau allanol, ee y rhyngwyd.

Bydd gwaith a gyflwynir gan yr ymgeisydd i gyflawni'r uned hon fel arfer yn dangos:

- archwiliad llawn o swyddogaethau ystod o osodiadau camera
- ymwybyddiaeth weledol o effeithiau defnyddio lensys gwahanol
- dealltwriaeth o elfennau iaith weledol a chyfansoddiad
- defnydd amrywiaeth o ategolion
- gwerthusiad adeiladol o'r delweddau a gynhyrchir sy'n dangos gwerthfawrogiad o'r cysylltiadau rhwng bwriadau a chanlyniadau
- dealltwriaeth a chyflwyniad sylfaenol i arferion iechyd a diogelwch. Gellid defnyddio'r rhain hefyd fel rhan o'r dystiolaeth ar gyfer unedau dilynol.

Gallai tystiolaeth ar gyfer iechyd a diogelwch gynnwys datganiad generig ynghylch pwy sy'n gyfrifol am iechyd a diogelwch a sut i roi gwybod am unrhyw beryglon. Gellid llunio asesiad risg sylfaenol ar gyfer unrhyw feysydd lle gall ymgeiswyr fod yn gweithio ynddynt naill ai yn y stiwdio neu ar leoliad. Dylai fod ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol a hefyd ymwybyddiaeth o'r angen i gymryd egwyl yn rheolaidd wrth weithio gydag unedau arddangos gweledol.

Bydd y gwaith ar y lefel hon yn cael ei arwain gan diwtoriaid yn bennaf ond dylai'r ymgeiswyr allu dangos rhywfaint o waith annibynnol a gynhyrchwyd gyda chefnogaeth a goruchwyliaeth yn ôl yr angen. Wrth iddynt symud ymlaen trwy'r cwrs dylent allu dangos lefel gynyddol o greadigrwydd. Dylent hefyd werthfawrogi'r angen i osod targedau a a therfynau amser a chadw atynt.

Uned 01 Archwilio offer, technegau, deunyddiau ac adnoddau ffotograffig (F/506/0069) (parhad)**Canllawiau asesu (parhad)**

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir uchod at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios ymgeiswyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu ac os oes modd cymedroli'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn NCFE.

Uned 02 Datblygu ac addasu syniadau ffotograffig (T/506/0070)

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Deall sut mae syniadau ffotograffig yn cael eu datblygu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Ymchwilio delweddau ffotograffwyr
 - 1.2 Disgrifio dulliau'r ffotograffwyr a'u defnydd o iaith weledol
-

Bydd y dysgwr yn:

- 2 Gallu datblygu syniadau ffotograffig

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 Datblygu syniadau gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau
 - 2.2 Cynhyrchu delweddau archwiliadol
 - 2.3 Addasu syniadau mewn ymateb i adborth
 - 2.4 Asesu gwaith ei hun a myfyrio ar y defnydd o iaith weledol
-

Uned 02 Datblygu ac addasu syniadau ffotograffig (T/506/0070) (parhad)**Ystod**

- 1.1 **Ymchwil:** defnyddio ffynonellau cynradd ac eilaidd i archwilio a deall sut mae ffotograffwyr wedi ymateb i wahanol themâu, pynciau a sefyllfaoedd
 - 1.2 **Dulliau:** technegau, offer, amseru
 - 2.1 **Ffynonellau:** lleoliadau, sefyllfaoedd, arddangosfeydd, lluniadau neu frasluniau eu hunain
 - 2.4 **Asesu gwaith ei hun:** llyfr braslunio, dyddiadur, anodiadau i ddangos sut mae'r dysgwr yn cynhyrchu syniadau unigol, deall beth sy'n gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, deall y berthynas rhwng bwriadau a chanlyniadau
 - 2.4 **Iaith weledol:** cyfansoddiad, rheol traeanau, llinellau arwain, lliw, gwead, patrwm, safbwynt, fframio, persbectif, cromliniau S, dyfnder maes, delwedd aneglur yn sgil symud, gwirioneddoldeb, cyfoes
-

Uned 02 Datblygu ac addasu syniadau ffotograffig (T/506/0070) (parhad)

Canllawiau asesu

Mathau o dystiolaeth: llyfr/dyddiadur gwaith a nodiadau anodedig, sylwadau ysgrifenedig sy'n cyfiawnhau dewisiadau, sgrinluniau, cyfres o ddelweddau archwiliadol.

Meini prawf asesu: 1.1, 1.2, 2.1–2.4

Gwybodaeth ychwanegol: Dylai ymgeiswyr gynhyrchu llyfr/dyddiadur gwaith sy'n cynnwys dystiolaeth sy'n dangos y gwaith datblygiadol ac archwiliadol sy'n arwain at gynhyrchu eu delweddau. Dylai hyn gynnwys cyfeirio at unrhyw brosesau technegol, cyfrifiadurol neu drin delweddau a ddefnyddir yn ystod ôl-gynhyrchu.

Dylai'r ymgeisydd lunio traethawd darluniadol o tua 1000 o eiriau yn dangos ymchwil a wnaed i waith ffotograffwyr a ddewiswyd. Dylai hyn gyfeirio at iaith weledol a gwerthusiad o waith y ffotograffydd. Dylai'r ymgeisydd allu dangos cysylltiad clir rhwng y gwaith hwn a'i syniadau ei hun.

Os yw ffilm yn cael ei defnyddio, dylai fod dystiolaeth o ddeall y prosesau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu printiau sy'n defnyddio arian; datblygu a phrosesu ffilm a chynhyrchu taflenni cyswllt a phrint prawf, trin delweddau sy'n defnyddio arian gan gynnwys llosgi ac atal golau a dewis o raddau a mathau o bapur: caled, meddal, amlradd, sglein, mat a pherl.

Gyda camerâu digidol, dylid dangos dystiolaeth o'r meysydd canlynol: lawrlwytho, ailfeintio, cydraniad, trin delweddau, cyferbyniad disgleirdeb, cywiro cast lliw, miniogi a pharatoi delweddau ar gyfer allbwn, p'un a yw hyn ar gyfer taflunio, argraffu neu gynnwys i feddalwedd cyflwyno electronig fel PowerPoint. Gydag argraffu, dylai fod dystiolaeth yn disgrifio'r gwahanol fathau o bapur argraffydd a'r rhesymau dros y dewis a ddewiswyd.

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir uchod at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios ymgeiswyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu ac os oes modd cymedroli'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn NCFE.

Uned 03 Cyflwyniad i'r diwydiant ffoto-ddelweddu (A/506/0071)

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Deall strwythur y diwydiant ffoto-ddelweddu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Disgrifio'r meysydd galwedigaethol o fewn y diwydiant ffoto-ddelweddu
 - 1.2 Egluro rolau'r cyfranogwyr allweddol yn y diwydiant ffoto-ddelweddu
 - 1.3 Nodi'r mathau o gyflogaeth yn y diwydiant ffoto-ddelweddu
 - 1.4 Disgrifio'r farchnad ar gyfer delweddau ffotograffig
-

Bydd y dysgwr yn:

- 2 Deall deddfwriaeth sy'n effeithio ar weithio yn y diwydiant ffoto-ddelweddu

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 Rhestru'r prif ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â:
 - eiddo deallusol
 - hawlfraint
 - hawliau a threfniadau caniatâd
 - hawliau ffotograffwyr
 - 2.2 Rhestru'r brif ddeddfwriaeth cyfraith sifil sy'n effeithio ar weithio mewn ffoto-ddelweddu
 - 2.3 Nodi sut mae cyfraith eiddo deallusol a phatentau yn berthnasol i waith
 - 2.4 Nodi pryd y gellir defnyddio delweddau heb ganiatâd
 - 2.5 Amlinellu amddiffyniad hawlfraint
 - 2.6 Rhestru'r gweithdrefnau ar gyfer aseinio hawlfraint
-

Uned 03 Cyflwyniad i'r diwydiant ffoto-ddelweddu (A/506/0071) (parhad)**Ystod**

- 1.1 **Meysydd galwedigaethol:** ffotograffiaeth, corfforaethol, masnachol, celfyddyd gain, diwydiannol, fforensig, gwyddonol, meddygol, teithio, ymarfer cyffredinol, llyfrgelloedd lluniau, y wasg, gweithgynhyrchwyr, gwasanaethu ac atgyweirio, manwerthu, marchnata
 - 1.2 **Cyfranogwyr allweddol:** artist digidol, technegydd prosesu, cynorthwyydd ffotograffig, ffotograffwyr, adeiladwyr setiau, rheolwyr stiwdio, steilwyr, cleientiaid, staff cymorth technegol, cyfarwyddwyr celf
 - 1.3 **Mathau o gyflogaeth:** llawrydd, llawn-amser, rhan-amser, tymhorol, contract
 - 1.4 **Marchnad:** masnachol, cymdeithasol, portread, priodas, hysbysebu, y wasg, golygyddol, asiantaethau lluniau, asiantau, celfyddyd gain
 - 2.1 **Deddfwriaeth:** Deddf Atebolrwydd Cyflogwyr (Yswiriant Gorfodol); Deddf Plant a Phobl Ifanc; Deddf Cyhoeddiadau Anwedus; Deddf Cysylltiadau Hiliol; Deddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw; Deddf Hawliau Cyflogaeth; Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd; Deddf Cyflogaeth, Y Gyfarwyddeb Oriau Gwaith; Deddf Iechyd a Diogelwch; Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cyfarpar Sgrin Arddangos)
 - 2.1 **Trefniadau caniatâd:** caniatâd i ddefnyddio delwedd unigolyn, hawlfraint, hawliau ffotograffwyr, nodau masnach, hawliau dylunio, preifatrwydd, tresmasu, rhyddid y wasg, ffotograffiaeth plant dan oed, Creative Commons, trwydded heb freindal
 - 2.5 **Hawlfraint:** Cofrestru hawlfraint, marcio neu fel arall nodi'r gwaith, esemptiadau
-

Uned 03 Cyflwyniad i'r diwydiant ffoto-ddelweddu (A/506/0071) (parhad)**Canllawiau asesu**

Mathau o dystiolaeth: llyfr/dyddiadur gwaith a nodiadau anodedig, disgrifiad ysgrifenedig o wahanol fathau o ddeddfwriaeth a'u defnydd.

Meini prawf asesu: 1.1–1.4, 2.1–2.6

Gwybodaeth ychwanegol: Bydd ymgeiswyr yn cael cyflwyniad i'r gwahanol ystyriaethau cyfreithiol wrth weithio yn y diwydiant a chipio delweddau fel ffotograffydd. Bydd yr ymgeisydd hefyd yn gallu nodi'r prif ddulliau o hawlfreintio delweddau a phryd y gellid defnyddio'r delweddau hyn gyda neu heb ganiatâd.

Ar y lefel hon, dylai'r ymgeisydd gynhyrchu amlinelliad ysgrifenedig o'r gwahanol ddeddfwriaethau a sut y gallai'r rhain effeithio arnynt mewn cyflogaeth.

Mae'r mathau o dystiolaeth a restrir uchod at ddibenion arweiniad yn unig. O fewn portffolios ymgeiswyr, mae mathau eraill o dystiolaeth yn dderbyniol os ymdrinnir â'r holl ganlyniadau dysgu a meini prawf asesu ac os oes modd cymedroli'r dystiolaeth a gynhyrchwyd yn fewnol ac yn allanol. I gymeradwyo dulliau asesu mewnol ar wahân i adeiladu portffolio, cysylltwch â'r Tîm Sicrhau Ansawdd yn NCFE.

Uned 04 Prosesu ac argraffu yn yr ystafell dywyll (F/506/0072)

Bydd y dysgwr yn:

- 1 Deall sut i brosesu ffilm du a gwyn

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 1.1 Disgrifio dulliau o brosesu ffilm du a gwyn
 - 1.2 Nodi pwysigrwydd amseru a thymheredd yn y dilyniant prosesu ffilm
 - 1.3 Nodi problemau a all ddigwydd wrth lwytho a phrosesu ffilm
-

Bydd y dysgwr yn:

- 2 Gallu prosesu ffilm du a gwyn

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 2.1 Prosesu ffilm du a gwyn gan ddefnyddio'r gweithdrefnau cywir
 - 2.2 Paratoi ffilm ar ôl prosesu ar gyfer argraffu'n ddiweddarach
 - 2.3 Dilyn gweithdrefnau iechyd a diogelwch sy'n gysylltiedig â phrosesu ffilm
 - 2.4 Adolygu ansawdd ffilm wedi'i phrosesu gorffenedig
-

Bydd y dysgwr yn:

- 3 Gallu argraffu o ffilm du a gwyn

Mae'r dysgwr yn gallu:

- 3.1 Nodi problemau a all ddigwydd wrth argraffu ffotograffau
 - 3.2 Dewis offer a dulliau i addasu delweddau
